



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Mesurau perfformiad ôl-16 cyson

**Diweddariad** | Ionawr 2020

Mae'r nodyn briffio hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y mesurau perfformiad ôl-16 cyson newydd ac yn tynnu sylw at y camau allweddol y dylai ysgolion a cholegau eu cymryd. Cliciwch [yma](#) ar gyfer taflen sydd yn crynhoi'r mesurau.

Rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw agweddau ar y mesurau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch nhw i [post16quality@llyw.cymru](mailto:post16quality@llyw.cymru).

## Y mesurau:

### Cyflawniad

Cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru.

### Gwerth ychwanegol

Y cynnydd sydd wedi'i wneud gan ddysgwyr, ar ben yr hyn a ddisgwylir fel arfer yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhyw.

### Cyrchfannau

Cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch) a/neu gyflogaeth.

## Beth sy'n newydd?

- Rydym wedi creu rhestr chwarae ar Hwb sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â mesurau perfformiad cyson ôl-16.
- Rydym wedi comisiynu Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC) i nodi'r nodweddion sy'n effeithio fwyaf ar gyflawniad dysgwyr ôl-16, a modelu dulliau o ymgorffori'r nodweddion hyn yn y camau cyflawni ar lefel rhaglen a chwrs. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn nhymor yr haf.
- Fe'ch cynghorwyd ym mis Awst bod ystadegau Cymru gyfan ar **gyrchfannau** ar gyfer rhaglenni dysgu a ddaeth i ben yn 2016/17, a oedd i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2019, wedi'u gohirio oherwydd camgymeriad yn y broses paru data a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU. Disgwylir i'r data hwn gael ei gyhoeddi erbyn hyn yng ngwanwyn 2020.
- Mae'r contract **gwerth ychwanegol** ôl-16 gyda FFT wedi'i ymestyn i Fawrth 2021 i gynnwys rhyddhau adroddiadau 2019/20. Rydym yn comisiynu gwerthusiad o effeithiolrwydd ac effaith y mesurau i lywio penderfyniadau ar ddatblygu yn y dyfodol, gan gynnwys penderfyniadau ar gaffael y contract gwerth ychwanegol yn y dyfodol.
- Mae **Estyn** bellach yn ystyried y mesurau newydd ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach e.e. arsylwi gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith dysgwyr ac adborth gan ddysgwyr fel rhan o arolygiadau.
- Rydym yn parhau i ddatblygu'r porth ar-lein (yn debyg i Fy Ysgol Leol), ac wedi cynnal rhai grwpiau ffocws cychwynol gyda'r dysgwyr, rhieni, athrawon a chynghorwyr gyfaoedd. Mae angen gwneud rhagor o waith ar y wefan, ac fe fyddwn yn trafod gyda'r sector yn nes ymlaen eleni wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

## Rhestri Gwirio

Yr hyn a ddylai fod yn nwylo ysgolion a cholegau ar hyn o bryd:

- |  |  |   |  |   |
|--|--|---|--|---|
| <input checked="" type="checkbox"/> Adroddiadau cyflawni ar gyfer 2017/18 – drwy DEWi a'r System Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (i ysgolion) | <input checked="" type="checkbox"/> <a href="#">Ystadegau Cymru Gyfan</a> ar y mesurau cyflawni ar gyfer 2017/18 | <input checked="" type="checkbox"/> Adroddiadau gwerth ychwanegol dros dro ar gyfer 2018/19 – drwy Aspire Analytics | <input checked="" type="checkbox"/> Adroddiadau cyrchfannau ar gyfer 2015/16 | <input checked="" type="checkbox"/> <a href="#">Ystadegau Cymru Gyfan</a> ar fesurau cyrchfannau ar gyfer 2015/16 |
|--|--|---|--|---|

Yr hyn i gadw llygad amdano:

- |   |  |   |  |
|---|--|---|--|
| <input type="checkbox"/> Adroddiadau cyflawniad terfynol ar gyfer 2018/19 (Chwe-20) | <input type="checkbox"/> Adroddiadau gwerth ychwanegol terfynol ar gyfer 2018/19 (Chwe-20) | <input type="checkbox"/> Ystadegau Cymru Gyfan ar y mesurau cyrchfannau ar gyfer 2016/17 (gwanwyn 2020) | <input type="checkbox"/> Adroddiadau cyrchfannau ar gyfer 2016/17 (gwanwyn 2020) |
|---|--|---|--|

## Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Diolch i bawb a ymatebodd i'n hymgynghoriad ar y mesurau newydd ar gyfer cyflawni ar lefel cyrsiau. Rydym eisoes wedi cynnwys llawer o'ch awgrymiadau ond mae angen ystyried eraill ymhellach.
- Rydym wedi cyhoeddi [canllawiau](#) i ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a chonsortia ar ddehongli'r mesurau newydd a'u defnyddio i ysgogi gwelliant. Anelir hyn at gynulleidfa gyffredinol ac mae'n addas i ddefnyddwyr annhechnegol o'r mesurau.
- Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ffurfiol ar ddisodli mesurau perfformiad presennol y chweched dosbarth yn nhymor y gwanwyn.
- Byddwn yn gweithio gyda'r sector i gyflwyno porth ar-lein tebyg i Fy Ysgol Leol sy'n cyhoeddi data ysgolion a cholegau unigol ar gyfer pob un o'r mesurau.

## Camau allweddol i ysgolion a cholegau

- Edrychwch ar [restr chwarae](#) Hwb ac ymgylfarwyddo â'r canllawiau sydd ar gael.
- Defnyddio'r canllawiau ar ddehongli'r mesurau newydd i ddeall y gwahanol adroddiadau ar fesurau perfformiad.
- Integreiddio'r mesurau perfformiad newydd i mewn i'r wybodaeth ehangach sy'n cael ei defnyddio yn eich cylch hunanwerthuso/hunan-asesu blynyddol, cynllunio gwelliannau ac adrodd i lywodraethwyr.
- Defnyddio ystadegau cyflawniad a chyrchfannau Cymru gyfan i ystyried eich perfformiad, cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

## Amserlen ar gyfer mesurau diweddaraf<sup>1</sup>

Ysgolion		Colegau	
Dyddiad	Gweithgaredd	Dyddiad	Gweithgaredd
Rhagfyr-19	<b>DEWi:</b> dosbarthu adroddiadau data cyflawniad dros dro i ysgolion ac awdurdodau lleol gan ddefnyddio data 2017/18 a 2018/19	Prynhawn 19 Rhagfyr-19	<b>Proses rewi derfynol Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru</b> ar gyfer pob mesur perfformiad 2018/19
Chwefror-20	<b>System Setiau Data Craidd Cymru Gyfan:</b> dosbarthu adroddiadau data cyflawniad terfynol i ysgolion ac awdurdodau lleol gan ddefnyddio data 2017/18 a 2018/19	Chwefror-20	<b>DEWi:</b> dosbarthu adroddiadau data cyflawniad terfynol i golegau gan ddefnyddio data 2017/18 a 2018/19
Chwefror-20	<b>Gwefan:</b> Datganiad Ystadegol: Mesurau cyflawni ar gyfer 2018/19	Chwefror-20	<b>Gwefan:</b> Datganiad Ystadegol: Mesurau cyflawni ar gyfer 2018/19
Chwefror-20	<b>Aspire Analytics:</b> adroddiadau gwerth ychwanegol terfynol yn seiliedig ar ddata 2018/19 yn cael eu cyhoeddi i golegau	Chwefror-20	<b>Aspire Analytics:</b> adroddiadau gwerth ychwanegol terfynol yn seiliedig ar ddata 2018/19 yn cael eu cyhoeddi i golegau
Gwanwyn-20 (dyddiad i'w gadarnhau)	<b>System Setiau Data Craidd Cymru Gyfan:</b> adroddiadau ar ddata <b>cyrchfannau</b> yn cael eu cyhoeddi i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer 2016/17	Gwanwyn-20 (dyddiad i'w gadarnhau)	<b>DEWi:</b> adroddiadau ar ddata <b>cyrchfannau</b> yn cael eu cyhoeddi i golegau ar gyfer 2016/17
Gwanwyn-20 (dyddiad i'w gadarnhau)	<b>Gwefan:</b> Erthygl Ystadegol: Mesurau <b>cyrchfannau</b> ar gyfer 2016/17	Gwanwyn-20 (dyddiad i'w gadarnhau)	<b>Gwefan:</b> Erthygl Ystadegol: Mesurau <b>cyrchfannau</b> ar gyfer 2016/17
Parhaus	<b>Porthol ar-lein:</b> data ysgolion a cholegau unigol ar gyfer pob mesur yn cael eu cyhoeddi	Parhaus	<b>Porthol ar-lein:</b> data ysgolion a cholegau unigol ar gyfer pob mesur yn cael eu cyhoeddi

<sup>1</sup> Bydd y mesur cyrchfannau bob amser yn cael ei gyhoeddi ar amserlen wahanol i'r ddau fesur arall, er mwyn rhoi amser i ddysgwyr symud ymlaen i gyrchfan barhaus ac i'w data gael ei gasglu, ei baru a'i ddadansoddi.